Cynnydd y Strategaeth Gynaliadwyedd 2020

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn roeddem yn wynebu pandemig byd-eang. Caewyd campysau'r Brifysgol gyntaf ym mis Mawrth 2020, gyda phob aelod o staff yn gweithio gartref ar unwaith, a daeth yr holl addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac wyneb yn wyneb i ben, gyda'r holl addysgu'n symud ar-lein. Cynhaliwyd yr holl ddigwyddiadau a mentrau'n rhithiol o'r amser hwn.

Cam Gweithredu	Llinell sylfaenol (2019)	Targed 2020	Cyflawnwyd
1 - Adrodd ar fath y digwyddiadau a'u niferoedd	6 x Gweithdy Gwyrdd 6 x Diwrnod Cymunedol 12 x Caffi Atgyweirio 6 x Gwasanaethu Beiciau Am Ddim Digwyddiadau Wythnos Ewch yn Wyrdd 4 x Darlith wadd 3 x Rownd derfynol Gwobrau	10% ar ben y llinell sylfaenol, gwelliant yn nifer y digwyddiadau dros y 3 blynedd nesaf	3 (-3) x Gweithdy Gwyrdd 2 (-4) x Diwrnod Cymunedol 5 (-7) x Caffi Atgyweirio 9 (+3) x Gwasanaethu Beiciau Am Ddim Digwyddiadau Wythnos Ewch yn Wyrdd 7 (+3) x Darlith wadd 3 (-) x Rownd derfynol Gwobrau Newydd (+1) Cyflwyno Gwobr Efydd Campws Cyfeillgar i Ddraenogod (+9) Casgliad Sbwriel (+4) Grŵp Gwirfoddoli a Gweithgor (+2) Grŵp Ffocws (+1) Adolygiad Sefydlu (+2) Teithio Cynaliadwy (+1) Arbrawf llif gwastraff (+1) Ymrwymiad gwastraff map bwyd
2- Cynnal gwelliant parhaus gydag ISO 14001 a chyflawni dim anghydffurfiaeth	Codwyd 2 fân anghydffurfiaeth	Cyflawni dim anghydffurfiaeth	Archwiliad allanol llwyddiannus ym mis Ionawr 2020 heb unrhyw anghydffurfiaeth wedi'u codi.
3 - Gwella ar 68ain o gynghrair Gwyrdd People and Planet 2019	Safle cynghrair 2019, 68ain	Cyrraedd safle yn y 10 uchaf yn y 3 blynedd nesaf	Tabl Cynghrair People and Planet heb ei gyhoeddi yn 2020.

1 - Adroddiadau misol ar y math o ddigwyddiadau a'u nifer. (2019 6 x Gweithdy Gwyrdd, 6 x Diwrnod Cymunedol, 12 x Caffi Atgyweirio, 6 x Gwasanaethu Beiciau Am Ddim, digwyddiadau Wythnos Ewch yn Wyrdd, 4 x Darlith wadd, 3 x rownd derfynol Gwobrau) Gwelliant o 10% ar nifer y digwyddiadau a'r nifer yn ymgysylltu.

Yn ystod mis Ionawr hyd at ddiwedd mis Mawrth, cynhaliwyd digwyddiadau a mentrau ar gyfer staff, myfyrwyr, ymwelwyr a'r gymuned ar y Campws, gan newid i ar-lein / awyr agored o fis Mawrth - Rhagfyr.

Gweithdai Gwyrdd - Mynychwyd Gweithdai Gwyrdd Am Ddim a ddarparwyd gan fenter gymdeithasol leol gan greu cyfleoedd ar gyfer byw'n wyrddach, cyfle i staff a myfyrwyr ddysgu awgrymiadau a syniadau newydd a rhannu profiadau. Gwneud Sebon gyda 17 yn mynychu ar y campws. Cartref Diwastraff gydag 16 yn mynychu ac Ystafell Ymolchi Ddiwastraff gyda 19 yn mynychu, yn symud i weithdai rhithiol ar Zoom.

Diwrnodau Cymunedol - Diwrnodau Cymunedol, digwyddiad misol, partneriaeth gymunedol leol â Marchnad Ffermwyr - Riverside Real Food, gyda chefnogaeth gwesteion yn ymuno â nhw bob mis, Entrepreneuriaid Myfyrwyr, Rheoli Gwastraff Cyngor Caerdydd, Hyrwyddwyr Amgylcheddol, Masnach Deg, ailddefnyddio ac ailgylchu llyfrau a deunydd ysgrifennu, a hyrwyddo Gweithdai Gwyrdd Am Ddim a ddarperir gan fenter gymdeithasol gan greu cyfleoedd i fyw'n wyrddach.

Caffis Atgyweirio – parhawyd â Chaffis Atgyweirio Met Caerdydd, a gefnogwyd yn 2019 i ddechrau gan Gwmni Buddiannau Cymunedol sy'n hwyluso digwyddiadau dros dro, sy'n cynnig hyfforddiant a chyngor i annog cymunedau sydd eisiau gweithio tuag at Economi fwy Cylchol, gan greu diwylliant o atgyweirio ac ail-ddefnyddio, gan fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r argyfwng cynyddol o dwf anghynaliadwy mewn safleoedd tirlenwi a gwastraff. Cyfle i wahodd ein cymuned a'n dinas i'r Campws. Cynhaliwyd Caffis Atgyweirio yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn, gyda staff / myfyrwyr a'r gymuned yn dod ag eitemau wedi torri i'n gwirfoddolwyr

atgyweirio edrych arnynt, gan achub eitemau rhag safleoedd tirlenwi, darparu cyngor ac arbenigedd. Gwirfoddolodd staff / myfyrwyr a'r gymuned eu sgiliau atgyweirio yn y Caffis Atgyweirio ar y campws gyda 147 o eitemau wedi'u cyflwyno i'w hatgyweirio, a 110 wedi'u hatgyweirio.

Gwasanaethu Beiciau Am Ddim – darparodd Elusen leol, Hyfforddiant Beicio Cymru, Wasanaeth Beiciau / gwiriad MOT Am Ddim, gwasanaethwyd 106 o feiciau am ddim i staff, myfyrwyr a'r gymuned leol yn ystod y Caffis Atgyweirio, Wythnos Ewch yn Wyrdd, a mis Tachwedd 2020.

Wythnos Ewch yn Wyrdd - wythnos genedlaethol flynyddol o weithredu ar newid hinsawdd mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Dathlodd y Brifysgol Wythnos Ewch yn Wyrdd ym mis Chwefror, gydag ystod o ddigwyddiadau Gwyrdd, MOT Beiciau Am Ddim, cyfle i brynu Beiciau wedi'u hadnewyddu, gweithdy mecanydd beic, Dillad Isaf i Bawb – Menter Ailgylchu, Cyfnewid llyfrau, Masnach Deg, Llety Caerdydd a Hyrwyddwyr Amgylcheddol, blasu Bŵt-camp, blasu Ioga, Gweithdai Ynni, Casglu Dillad YMCA, Rheoli Gwastraff ar y Campws ac Ailgylchu anrhegion Nadolig diangen.

Seminarau / Darlithoedd - Seminar KESS2, rhannu gwybodaeth a phrofiadau dysgu â staff a myfyrwyr Met Caerdydd a Phrifysgol Bangor. Darparwyd darlithoedd gwadd ar gyfer y cyrsiau Gweledigaeth mewn Cynaliadwyedd, Twristiaeth Gynaliadwy ac Iechyd yr Amgylchedd, ar Gyflwyno'r System Rheoli Amgylcheddol (SRhA) ym Met Caerdydd. Prosiect Byd Go Iawn - modiwl Busnes ar Waith - prosiect ar gwpanau coffi untro v Amldro ar y Campws, cafodd myfyrwyr y dasg o wneud argymhellion ar gyfer ymgysylltu. Darlith Bwyd Cynaliadwy - Darparwyd darlithoedd gwadd ar Gyflwyno'r System Rheoli Amgylcheddol (SRhA) ym Met Caerdydd a Chwpanau Coffi Untro, yr uchafbwyntiau, yr isafbwyntiau a'r dyfodol.

Gwobrau - Cyflwynwyd Ceisiadau Gŵn Gwyrdd a chyrhaeddwyd y rhestr fer ar gyfer tri chyflwyniad Gwobr Gŵn Gwyrdd 2020 - Iechyd, Bwyd a Diod y Campws; Buddio Cymdeithas a Chenhedlaeth Nesaf Dysgu ac addysgu - Hydref 2020. Cyflwynwyd cais am Wobr Efydd ar gyfer Campws Cyfeillgar i Ddraenogod ym mis Rhagfyr 2020.

Cyfleoedd gwirfoddoli - Fforwm Gwirfoddoli gyda Hyrwyddwyr Amgylcheddol - partneriaeth â Llety Caerdydd, Prifysgol Caerdydd a rhwydwaith gwirfoddoli myfyrwyr. Ail-lansiwyd Hyrwyddwyr Amgylcheddol gyda Llety Caerdydd - mynychodd myfyrwyr sesiwn ragarweiniol i gwrdd a gwneud plannwr crog macramé.

Grŵp Llywio Masnach Deg - Gosodwyd Grŵp Llywio Masnach Deg i'w adnewyddu a chrëwyd Cynllun Gweithredu CAMPUS Masnach Deg. Cyflwynwyd digwyddiad Pythefnos Masnach Deg - gyda stondinau hyrwyddo, stondinau gwybodaeth ac Ymgysylltu UM / Byd-eang a chystadleuaeth Pêl-droed Masnach Deg 5 bob ochr.

Campws Cyfeillgar i Ddraenogod - Gweithgor Ymwybyddiaeth Draenogod - Lansiwyd menter Campws Cyfeillgar i Ddraenogod ym mis Ionawr 2020 - yn gweithio tuag at lefel Efydd, wedi'i gwblhau yn rhithiol. Gweithgor Ymwybyddiaeth Draenogod Rhithiol – wedi cwblhau hyfforddiant Arolwg Draenogod ac wedi cwblhau Arolygon Draenogod gartref.

Casgliadau Sbwriel - Gweithredwyd casgliadau sbwriel rheolaidd o bob campws, gyda chasgliadau ym mis Ionawr, Chwefror a Thachwedd 2020 gyda 126 o gyfranogwyr.

Grwpiau Ffocws - Cynhaliwyd dau grŵp ffocws rhithiol i staff a myfyrwyr roi eu hadborth ar y polisïau a'r strategaethau a adolygwyd cyn iddynt gael eu cwblhau. Hysbysebwyd y grwpiau ffocws i ddechrau yn ystod Wythnos Ewch yn Wyrdd Chwefror 2020 lle gallai pobl ddarparu eu henwau er mwyn bod modd cysylltu â nhw i gymryd rhan. Pan adolygwyd y polisïau/strategaethau gan eu perchnogion a chawsant gymeradwyaeth gychwynnol gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd, galwyd ar y rhai oedd â diddordeb i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws ar-lein. Dylanwadodd yr adborth gan y grwpiau ffocws ar newidiadau i'r polisïau/strategaethau cyn iddynt gael eu cwblhau a'u cyhoeddi.

Adolygu Sefydlu - Adolygwyd e-fodiwl Sefydlu Cynaliadwyedd staff.

Teithio Cynaliadwy - Cyflwynwyd cynllun llogi NEXT Bike ar bob campws, gyda chynnydd mewn pryniant o 1200 tocyn am ddim i fyfyrwyr a staff. Cynllun prynu beicio i'r gwaith Mehefin - Medi 2020, prynodd 29 aelod o staff feiciau / offer trwy'r cynllun.

Ymwybyddiaeth Gwastraff - Parhawyd ag arbrawf gyda Cadwch Gymru'n Daclus, gyda llif gwastraff newydd ar gyfer casglu cwpanau untro ar y Campws ar gyfer Ionawr – Mawrth.

Ymrwymiad i Leihau Gwastraff Bwyd - Llofnododd y Brifysgol gytundeb â WRAP (corff anllywodraethol byd-eang yw WRAP sydd â'i leoliad yn y DU. Mae'n un o 5 prif elusen amgylcheddol y DU ac mae'n gweithio gyda llywodraethau, busnesau ac unigolion i sicrhau y caiff adnoddau naturiol y byd eu defnyddio'n gynaliadwy) - y Brifysgol gyntaf i gofrestru i gyflawni Map Ffordd Lleihau Gwastraff Bwyd y DU (FWR) - i ymgorffori egwyddorion targedu, mesur, gweithredu yn ein gweithrediadau bwyd. Mae'r Map Ffordd yn uchelgeisiol iawn, a'r DU yw'r wlad gyntaf yn y byd i osod cynllun gwlad gyfan o'r fath faint, graddfa ac uchelgais â hon. Nid oedd rhai gweithgareddau / mentrau yn gallu parhau yn rhithiol, a newidiwyd y ffocws i'r rhai a allai barhau a gweithredwyd cyfleoedd pellach.

2) Cynnal gwelliant parhaus gydag ISO 14001 a chyflawni dim anghydffurfiaeth - Archwiliad allanol llwyddiannus ym mis Ionawr 2020 heb unrhyw anghydffurfiaeth wedi'u codi.

3) Gwella ar 68ain o gynghrair Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 2019 - parhau i weithredu tasgau a gynlluniwyd er mwyn gwella yn nhabl y gynghrair ac adrodd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd.

Maes Effaith	Amcan	Targed	Dangosyddion / Mesurau	Ebrill 2020	Awst 2020	Ion 2021	Cyfrifoldeb
Ymwybyddiaeth Amgylcheddol	Cynyddu gweithgareddau ymwybyddiaeth, Campws ac o fewn y Gymuned	Codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd ymhlith staff Met Caerdydd, myfyrwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned leol gyda digwyddiadau a chyfathrebu. Cynnal ISO 14001: 2015. Gwella safle yn nhabl Cynghrair Gwyrdd P&P.	1) Adroddiadau misol ar y math o ddigwyddiadau, eu nifer a'u heffaith. 2) Cynnal gwelliant parhaus gydag ISO 14001 a chyflawni dim anghydffurfiaeth. 3) Gwella ar 68ain o gynghrair 2019.	1) Adroddiadau misol ar y math o ddigwyddiadau, eu nifer a'u heffaith - Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd digwyddiadau, gyda chymorth deiliad swydd newydd - Swyddog Prosiectau Cynaliadwyedd. Pum Caffi Atgyweirio, 2 x Diwrnod Cymunedol, Gweithdy Gwyrdd, Seminar KESS2, Seminarau Busnes ar Waith, Darlith Bwyd Cynaliadwy, Fforwm Gwirfoddoli gyda Hyrwyddwyr Amgylcheddol, Wythnos Ewch yn Wyrdd, Casgliadau Sbwriel a Chyfarfodydd Masnach Deg. Mesurwyd effaith pob digwyddiad trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol - gyda chyflwyniad Instagram yn ystod y cyfnod hwn. 2) Cynnal gwelliant parhaus gydag ISO 14001 a chyflawni dim anghydffurfiaeth - Archwiliad allanol llwyddiannus ym mis Ionawr 2020 heb unrhyw anghydffurfiaeth wedi'u codi. 3) Gwella ar 68ain o gynghrair Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 2019 - parhau i weithredu tasgau a gynlluniwyd er mwyn gwella yn nhabl y gynghrair ac adrodd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd hwn.	1) Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod adrodd oherwydd covid-19 a chau'r Campws. 2) Cynnal gwelliant parhaus gydag ISO 14001 a chyflawni dim anghydffurfiaeth - Archwiliad allanol llwyddiannus ym mis Ionawr 2020 heb unrhyw anghydffurfiaeth wedi'u codi. Cwblhawyd Archwiliadau Mewnol fel ymarferion bwrdd gwaith tra bo'r Campws ar gau. Caiff sylweddau cemegol a pheryglus eu harchwilio unwaith inni ddychwelyd i'r Campws. 3) Gwella ar 68ain o gynghrair Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 2019 - parhau i weithredu tasgau a gynlluniwyd ar gyfer gwella yn nhabl y gynghrair ac adrodd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd hwn.	1) Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar y Campws ac ar-lein, cynhaliwyd x 3 digwyddiad Gwasanaethu Beiciau Am Ddim ym mis Tachwedd, x 7 Casgliad Sbwriel ar bob Campws. Ar-lein - Campws Cyfeillgar i Ddraenogod, Cwpanau coffi untro ar y Campws, Gweithdai Gwyrdd Am Ddim - Cartref Diwastraff ac Ystafell Ymolchi Ddiwastraff. Cyflwyno cyflwyniad Efydd Campws Cyfeillgar i Ddraenogod. 2) Cynnal gwelliant parhaus gydag ISO 14001 a chyflawni dim anghydffurfiaeth - Archwiliad allanol nesaf ym mis Ionawr 2021 3) Gwella ar 68ain o gynghrair Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 2019 - parhau i weithredu tasgau a gynlluniwyd ar gyfer gwella yn nhabl y gynghrair ac adrodd i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd hwn. Gohirio'r gynghrair ar gyfer 2020	Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd